EUR 01-03(min)

# Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 30 Ionawr 2003 |
| **Amser:** | 2.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Tom Middlehurst (Cadeirydd) | Llafur: Alun a Glannau Dyfrdwy |
| | Nicholas Bourne | Ceidwadwr: Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| | Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| | Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| | Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| | Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| | Jonathan Morgan | Ceidwadwr: Canol De Cymru |
| | Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| | Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |
| | **Gwahoddedigion Sefydlog** | |
| | Glenn Vaughan | Cyfarwyddwr Dros-dro, Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| | Janet Davies AC | Pwyllgor y Rhanbarthau |
| | **Gwahoddedigion** | |

| | |
|---|---|
| Mr Bitsios | Dirprwy Bennaeth Llysgenhadaeth Gwlad Groeg yn y DU |
| Kirsty Williams AC | Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Peter Kellam | Cysylltiadau Tramor ac Allanol, Swyddfa'r Llywydd |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Phil Bird | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Jackie Brown | Pennaeth yr Uned, Rhaglenni Ewropeaidd |
| Gary Davies | Pennaeth, Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**14.00 - 14.05**

**Eitem 1**

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r Pwyllgor, ac yn arbennig i Mr Bitsios o Lysgenhadaeth Gwlad Groeg, a fydd yn annerch y Pwyllgor am Lywyddiaeth ei wlad ar yr UE.
2. Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law am eu habsenoldeb gan Christine Chapman AC a Rhodri Morgan AC, gan yr ASEau Jill Evans, Jonathan Evans, Glenys Kinnock, Eluned Morgan ac Eurig Wynn, a chan y gwahoddedigion sefydlog Rose D'Sa, y Cyng. Jon Huish a Brian Curtis.

**14.05 – 14.15**

**Eitem 2**

**Adroddiad y Gweinidog**

**Papur: EUR 01-03(p1)**

1. Ymhelaethodd y Dirprwy Brif Weinidog ar ei adroddiad ysgrifenedig.
2. Roedd dirprwyaeth o Senedd Uruguay yn ymweld â'r Cynulliad y diwrnod hwnnw ac wedi cwrdd ag aelodau.
3. Roedd Uchel-Gomisiynydd Canada yn y Cynulliad ddydd Mercher, y 29ain a mawr fu croeso Pwyllgor Cymuned Fusnes Cymru a Gogledd America i'w ddyhead i gryfhau'r cysylltiadau masnachol rhwng Cymru a Chanada.
4. Wrth siarad am Atodiad 4 ei adroddiad, o'r naw sy'n gweithio i'r Cynulliad ym Mrwsel, nododd fod tri ohonynt yn swyddfa Llywodraeth y Cynulliad ac un yn gweithio dros-dro gyda'r CE yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol (DG): Gweinyddiaeth. Roedd pump ar secondiad: un yn DG Cyflogaeth; dau stagiéres yn DG Cystadleuaeth a DG Ysgrifenyddiaeth Gyffredinol a dau ysgrifennydd yn gweithio yn UKREP ar Sefydliadau a Chymhorthion Gwladol a'r Gymdeithas Wybodaeth.
5. Cadarnhaodd y Gweinidog iddo fynd i gyfarfod y Cyngor Amaethyddiaeth sy'n cael ei grybwyll yn ei adroddiad.
6. Roedd Pwyllgor y Ty wedi argymell bod swyddog o Swyddfa'r Llywydd yn ymuno â Thîm Cymru ym Mrwsel i fod yn ffynhonnell help yn Ewrop i Aelodau'r Cynulliad. Roedd nifer o opsiynau posibl. Argymhellwyd y dylai fod yn fater i'r holl Aelodau ei drafod, nid aelodau Pwyllgor y Ty yn unig. Bydd papur y Gweinidog ar hyn yn cael ei anfon at aelodau'r pwyllgor.
7. Roedd y Prif Weinidog wedi cael gwahoddiad i gadeirio grwp o Bwyllgor y Rhanbarthau Morol ac Ymylol sy'n edrych ar bolisi rhanbarthol ac i fod ar weithgor Bwa'r Iwerydd. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i gyfnewid a chymryd rhan.
8. Nodwyd y wybodaeth a gafwyd gan y Gweinidog am hynt yr Ewro. Bu'r flwyddyn gyntaf lawer hwylusach na'r disgwyl ac ymddengys bod pobl y gwledydd sy'n defnyddio'r Ewro yn hapus â hi. Cafwyd y teimlad ar ôl cyflwyno'r Ewro bod prisiau wedi codi, ond mae ymchwil wedi dangos na fu i hynny ddigwydd. Mae'r Ewro yn cael ei defnyddio fwyfwy y tu allan i Ardal yr Ewro, er enghraifft yn rhannau o'r hen Iwgoslafia. Nodwyd hefyd yr argymhelliad i beidio â pharhau i ddangos dau bris. Mae'r adroddiad llawn ar gael i aelodau ei ddarllen.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd y Gweinidog yn paratoi papur ar y cynnig bod swyddog o Swyddfa'r Llywydd yn gweithio ym Mrwsel er lles aelodau'r pwyllgor.

**14.15 – 14.30**

**Eitem 3**

**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cydmeithasol**

1. Anerchodd Kirsty Williams AC y pwyllgor am agweddau Ewropeaidd ar waith y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Y prif bwyntiau a godwyd oedd:-
2. Ni chafwyd cymaint o gyfle i ystyried agweddau Ewropeaidd yng ngwaith y Pwyllgor ag y byddai'r Cadeirydd wedi dymuno am fod cylch gwaith y pwyllgor mor eang. Roedd y Pwyllgor wedi manteisio ar brofiadau rhannau eraill o Ewrop wrth ystyried creu Comisiynydd Plant i Gymru. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried adroddiad Philips ar BSE a diogelwch bwyd wedi'i

fewnforio ac roedd yn falch bod rheoliadau'r UE ar labelu mewnforion cig eidion wedi'u cryfhau i rwystro cynhyrchion cig anniogel rhag dod i Gymru.

3. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried ymweld â Brwsel i drafod materion iechyd yr UE, ond nid yw amgylchiadau'n caniatau hynny ar y pryd. Efallai y gallai'r pwyllgor ystyried ymweld â Brwsel rywdro wedi'r etholiadau. Nodwyd hefyd bod llawer i'w ddweud o blaid model y rapporteur - dirprwyo un neu ddau o aelodau'r pwyllgor i fynd i Frwsel ar drywydd pwnc ac i ddod yn ôl i'w drafod yn y Pwyllgor.
4. Roedd Jane Hutt, y Gweinidog Iechyd, wedi paratoi adroddiad ar ei hymweliad â Gogledd Karelia yn y Ffindir, a'r gwaith arloesol oedd yn cael ei wneud yno i atal Clefyd Coronaidd y Galon. Roedd gwariant y rhanbarth ar hybu iechyd yn uchel, ac roedd y canlyniadau da wedi argyhoeddi rhanbarthau cyffiniol i ddilyn ei esiampl.
5. Mae'r Pwyllgor Iechyd yn credu bod ei ddyletswydd i graffu ar ddeddfwriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth a wneir yn sgil rheoliadau'r UE, yn waith pwysig iawn. Mae'n derbyn adroddiad misol ar y ddeddfwriaeth sydd yn yr arfaeth. Nid yw'r pwyllgor wedi dewis unrhyw ddeddfwriaeth hyd yma ag iddi ddimensiwn Ewropeaidd i graffu arni. Y gobaith ar ôl yr etholiad yw y gall Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau helpu'r pwyllgor i gadw ei fys ar byls datblygiadau yn Ewrop sy'n ymwneud ag iechyd. Nodwyd nad oedd y Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol yn rhannu'r un aelodau â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
6. Nododd yr aelodau nad yw Cadeiryddion Pwyllgorau Pwnc yn derbyn copi o raglen waith y CE fel mater o drefn. Dylid ei hanfon atynt i wneud yn siwr eu bod yn gwybod am unrhyw beth a allai fod yn berthnasol i'w pwnc.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn anfon copi o raglen waith yr CE (papur 3) at Gadeiryddion pob pwyllgor pwnc iddynt ei hystyried.
- Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn ysgrifennu at gadeiryddion y pwyllgorau pwnc yn gofyn iddynt wneud mwy i ymgorffori materion Ewropeaidd yn eu rhaglenni gwaith.

**<u>14.30 – 15.07</u>**

**Eitem 4**

**Cyflwyniad gan Ddirprwy Bennaeth Llysgenhadaeth Gwlad Groeg yn y DU ar flaenoriaethau Gwlad Groeg fel Llywyddion yr UE.**

1. Cafwyd anerchiad gan Mr Bitsios, Dirprwy Bennaeth y Llysgenhadaeth am flaenoriaethau'i wlad dros y chwe mis y bydd yn Llywyddu'r UE, o 1 Ionawr 2003. Prif bwyntiau'r cyflwyniad a'r drafodaeth wedi hynny oedd:
2. Y prif flaenoriaethau oedd: ehangu'r UE a chanlyniadau hynny; diwygio gwleidyddol o fewn yr UE; diwygio economaidd i greu ffyniant a swyddi; mewnfudo/lloches a rheoli ffiniau allanol, yn ogystal â chysylltiadau â gwledydd eraill gan gynnwys delio â'r argyfwng yn Irac.
3. Bydd y cytundeb ar ehangu'r UE yn cael ei lofnodi yn Athen ar 16 Ebrill a bydd y gwledydd newydd yn dod yn aelodau ar 1 Mai 2004. Ar ôl yr uwch-gynhadledd yn Athen, bydd pob darpar-

aelod yn mynd i bob cyfarfod fel sylwebyddion. Mae yna ddyddiad pendant hefyd i Romania a Bwlgaria yn 2007 ac unwaith y bydd Twrci'n bodloni meini prawf Copenhagen, gall ddechrau trafod telerau dod yn aelod. Mae yna nifer o wledydd yn y Balcanau y dylid rhoi arwydd clir iddynt bod posibilrwydd y caent ddod yn aelodau yn y dyfodol, gan gynnwys Albania, Cyn-Weriniaeth Iwgoslafia Macedonia, yr Hen Iwgoslafia, Croatia a Bosnia. Disgwylir i Groatia wneud cais i ymaelodi â'r UE cyn hir.

4. Bydd Ysgrifennydd Cyffredinol Llywyddiaeth Gwlad Groeg yn gweithio'n galed i wneud yn siwr bod trafodaethau llwyddiannus yn cael eu cynnal am ddyfodol Cyprus cyn diwedd Chwefror er mwyn iddi allu ymaelodi â'r UE fel gwlad unedig. Roedd pob ochr wedi gweithio'n galed iawn i geisio datrys y mater cyn uwch-gynhadledd Copenhagen, a bydd y gwaith caled hwnnw'n parhau. Roedd Llywyddiaeth Gwlad Groeg yn gweithio'n neilltuol o egnïol i gael hyd i ateb. Mae Gweinidog Tramor Gwlad Groeg yn Ankara y funud hon, yn siarad â Llywodraeth Twrci.
5. O ran polisi tramor:

- Mae'n bwysig nad ydym yn anghofio am wledydd y Balcanau am nad oes cymaint o sôn amdanynt ar y newyddion mwyach.
- Mae'n bwysig hefyd gwella ansawdd y ddeialog â Rwsia a'i helpu yn ei thrafodaethau i ddod yn aelod o Gorff Masnach y Byd.
- Rhaid wrth berthynas agos â'r UDA. Mae economïau'r UE ac America yn bwysig iawn - mae $1 biliwn o fasnach a buddsoddi yn cyfnewid bob dydd rhyngddynt - sef 40 y cant o holl fasnach y byd.
- Mae'r broses heddwch yn y Dwyrain Canol hefyd yn broblem sy'n parhau, fel ag y mae'r angen am safbwynt cytun ar Irac. Bydd Gwlad Groeg yn gwneud popeth posib i helpu'r 'pedwarawd' pwysig sydd ynghlwm â'r broses heddwch yn y Dwyrain Canol. Maent wedi cytuno ar y ffordd ymlaen a byddwn yn gallu dechrau arni cyn gynted ag y bydd y weinyddiaeth newydd yn Israel wedi'i ffurfio.

1. Nodwyd bod gwahaniaethau'n gallu ymddangos ym mholisi tramor aelod-wledydd unigol yr UE a gofynnwyd ai mater hawdd yw dod i gytundeb. Awgrymwyd na chai Ewrop fyth unfrydedd ar rai pynciau hyd y câi'r UE sefydliadau cyffredin ac y câi materion tramor eu trin yn ganolog.
2. Mae mudo - cyfreithlon ac anghyfreithlon - ac amddiffyn ffiniau allanol yn flaenoriaethau. Maent yn bynciau sensitif iawn i holl wledydd yr UE ar hyn o bryd, ac mae'n bwysig sylweddoli bod gwahaniaeth rhwng ceiswyr lloches, y gweithwyr crefftus y mae ar wledydd yr UE eu hangen a brawychiaeth. Rhaid wrth bolisi cyffredin ar y materion hyn a byddant yn cael eu trafod mewn gweithdy ar ymfudo yn Athen ym mis Mawrth. Nodwyd bod cynnydd mewn gweithwyr crefftus a digrefft yn bwysig ond fe ddylent fod yn gyfreithlon; mae'n rhaid brwydro yn erbyn y fasnach mewn pobl; cysoni'r ffyrdd y rheolir ffrydiau mudo; integreiddio ymfudwyr cyfreithlon o fewn ein cymdeithasau a chadw rheolaeth dynnach ar ffiniau allanol. Mae daearyddiaeth Gwlad Groeg, â'i harfordir hir a'i hynysoedd dirifedi, yn her anferth i'r rheini sy'n gweithio i rwystro mudo anghyfreithlon. Mae'n rhaid wrth gydweithio, gan gynnwys gyda thrydedd gwledydd, ac mae chwe gwlad o'r UE wedi dechrau cyd-batrolio Môr y Canoldir, er enghraifft.
3. Mae ffyniant economaidd a swyddi yn bryderon mawr. Yng Nghyngor yr UE yn Lisbon, lluniwyd agenda 10 mlynedd uchelgeisiol - "i wneud yr UE yr economi wybodaeth fwyaf cystadleuol a deinamig yn y byd erbyn 2010, a fydd yn gallu cynnal ei thwf ei hun, gyda mwy o swyddi a swyddi gwell a mwy o gydlyniant cymdeithasol." Mae gan wledydd yr UE lawer o ryddid o ran sut i gyflawni'r polisïau hyn ond mae yna feincnodau i Gyngor Ewrop eu monitro a

chaiff rhestr ei chyhoeddi i ddangos pa mor lwyddiannus yw pob gwlad. Dair blynedd yn ddiweddarach, rydym ar ei hôl hi, er enghraifft o ran agor y farchnad ynni, ar reolau gwrth-ymddiriedaeth a chytundeb ar gael 'awyr sengl' dros Ewrop. Bydd Llywyddiaeth Gwlad Groeg yn canolbwyntio ar entrepreneuriaeth a busnesau bach, yn enwedig i hybu busnesau gwybodaeth. Cafodd Paur Gwyn ei gyflwyno gan yr CE wythnos ddiwethaf i hybu'r agenda fenter a chaiff cynhadledd ei chynnal gan yr CE/Gwlad Groeg ar 13 Chwef yn Thessaloniki i wyntyllu'r pwnc. Roedd llunio Siarter ar gyfer busnesau bach yn rhan bwysig o agenda Lisbon a mabwysiadodd yr CE becyn o ddogfennau wythnos ddiwethaf yn esbonio'i bolisi ar fusnesau bach. Bydd Gwlad Groeg yn cefnogi polisïau i helpu pobl i gael at gyllid, strategaethau arloesi mwy effeithiol a symleiddio rheoliadau.

4. Rhaid diwygio'r UE - nid yw ei ffurf fel ag y mae yn ddigon cryf i gynnal 25 o wledydd. Mae'r trafod wedi bod yn danbaid ac yn ddiddorol. O'r safbwynt Groegaidd, mae'r UE yn gweithio'n dda oherwydd ei drefniadaeth, gyda'r Comisiwn yn cynnig a'r Cyngor yn penderfynu. Byddai Gwlad Greog yn erbyn gweld llithro tuag at gorff rhyng-lywodraethol, er enghraifft gyda Llywydd wedi'i benodi ar y Cyngor. Mae Gwlad Groeg o blaid cryfhau'r Comisiwn ac ethol ei Lywydd. Mae am weld cyfuno rolau'r Uwch-Gynrychiolydd, Javier Solana, a'r Comisiynydd Materion Allanol, gan mai'r cyntaf ar hyn o bryd sy'n rhoi'r arian a'r llall sy'n trin y wleidyddiaeth. Mae hyn yn anodd i wledydd eraill ei ddeall. Mae angen symleiddio pethau a dileu'r system 3 philer. Nid oes angen sefydliadau newydd ar yr UE, ond fe ddylid ymroi i gael y rhai sy'n bod i weithio. Nid yw Gwlad Groeg yn frwd dros greu Cyngres y Bobl ac ychwanegu haenen arall. Dylai gwledydd sydd am gydweithio i gryfhau amddiffyn Ewrop gael gwneud hynny.
5. Mae gan Wlad Groeg a Chymru ddiddordeb yn y cynlluniau i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae cyfran uchel o bobl Gwlad Groeg yn gweithio ar y tir ac mae cynhyrchiant amaethyddol y wlad, gan gynnwys defaid, yn uchel. Mae'r Gweinidogion Amaeth newydd fod yn trafod y cynigion diweddaraf i ddiwygio'r PAC: datgysylltu cymorthdaliadau a chynhyrchiant, gwneud taliadau'n ddibynnol ar safonau iechyd a diogelwch (traws-gydymffurfio) a chynyddu'r arian i ddatblygu cefn gwlad trwy fodwleiddio (ond gan eithrio ffermwyr bach). Mae mesurau datblygu gwledig newydd yn yr arfaeth i gynhyrchu mwy o gynnyrch o safon, hybu diogelwch bwyd a lles anifeiliaid, ac adolygu polisi'r farchnad ar gnydau âr, llaeth a reis. Nid yw pawb ym Mrwsel yn frwd dros y diwygiadau hyn ond mae newid yn angenrheidiol. Rhaid penderfynu beth yw safbwynt yr UE erbyn rownd nesaf trafodaethau'r WTO. Mae Gwlad Groeg am weld penderfyniad ar y cynigion hyn erbyn Mehefin.
6. Diolchodd y Cadeirydd Mr Bitsios ar ran y pwyllgor am ei anerchiad diddorol iawn.

**Penderfyniad y Pwyllgor dorri i gael egwyl o 15.07 tan 15.30.**

Yn ystod yr egwyl, cyfarfu'r aelodau â dirprwyaeth o Senedd Uruguay sy'n ymweld â'r Cynulliad trwy drefniant Undeb Rhyng-seneddol Prydain. Gwelwyd y Cynrychiolwyr Seneddol Guillermo Alvarez, Arturo Heber Fullgraff a Jose Amorin Batlle, Mr Oscar Piquinela, Ysgrifennydd Grwp Uruguay yr Undeb Rhyng-seneddol, Carlos Bentancour, Cwnsler-Weinidog Llysgenhadaeth Uruguay a'r cyfieithydd Ms Rosemary Luz, yng nghwmni Jim Rodgers Penelope Vagg o Grwp Prydain yr Undeb Rhyng-seneddol.

**15.30 – 15.35**

**Eitem 5**

**Cynhadledd Copenhagen**

**Papur: EUR 01-03(p2)**

1. Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog bapur yn disgrifio'r digwyddiadau pwysig yn yr Uwch-Gynhadledd Ewropeaidd hanesyddol yng Nghopenhagen, lle penderfynwyd ehangu'r Undeb o 15 i 25 aelod.
2. Tynnodd sylw'r pwyllgor at baragraffau 13 ac 14 sy'n delio â Gweithgor Ehangu'r Cynulliad. Mae aelodaeth y grwp wedi bod yn cwympo ac roedd y Gweinidog wedi gofyn a ddylid newid ei rôl a'i gylch gwaith. Penderfynir yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Ehangu.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bod y Gweinidog yn paratoi adroddiad i'r pwyllgor ar ôl i'r Gweithgor Ehangu gwrdd eto a chytuno ar ei ddyfodol.

**15.35 – 15.40**

**Eitem 6**

**Dadansoddiad o oblygiadau rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd**

**Papur: EUR 01-03(p3)**

1. Jackie Brown gyflwynodd y papur y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd i bob adran bolisi ystyried rhaglen waith y Comisiwn ac asesu ei heffaith ar bortffolio ei Gweinidog.
2. Roedd paragraff 28 y papur yn cyfeirio at wella cysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys yr A40 yn y Gorllewin, a gofynnwyd a fyddai yna arian o'r UE yn dod i Gymru i helpu gyda'r gwelliannau hyn.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd ysgrifenyddiaeth y pwyllgor yn anfon y rhaglen waith at gadeiryddion newydd y pwyllgorau pwnc a benodir wedi'r etholiadau. Gofynnir iddynt anfon nodyn at y Pwyllgor Ewropeaidd yn esbonio sut y byddant yn disgwyl delio â'r meysydd yn y rhaglen waith sy'n berthnasol iddynt hwy.
- Yn y dyfodol, pan ddaw papurau sy'n ymdrin â rhyw agwedd ar waith yr UE, fe'u dosberthir i'r pwyllgor pwnc perthnasol.
- Caiff nodyn ei baratoi i esbonio a oes arian ar gael gan yr UE i helpu i ddatblygu Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd.

**15.40 – 15.55**

**CALRE: Datganiad Brwsel**

**Eitem 7**

**Papur: EUR 01-03(p4)**

1. Bu'r pwyllgor yn ystyried y datganiad a wnaed ym Mrwselyng nghyfarfod diweddaraf Cynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol (CALRE). Dywedodd Peter Kellam o Swyddfa'r Llywydd bod y Llywydd yn bresennol yno a bod hwn yn gyfle i'r Pwyllgor ymateb iddo. Y Datganiad yw ymateb CALRE i'r Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop.
2. Nodwyd y gwahaniaeth rhwng dau gorff ag enwau tebyg iawn: Cynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE) a Chynhadledd Llywyddion Rhanbarthau â Phwerau Deddfu neu RegLeg fel y'i gelwir. Mae RegLeg hefyd wedi paratoi datganiad i'r Confensiwn.
3. Roedd y ddau ddatganiad yn eithaf tebyg, ond roedd ychydig o wahaniaethau o ran hawliau a phrosesau apelio at yr UE yn erbyn deddfwriaeth sy'n mynd yn groes i les gwlad neu ranbarth yn yr UE. Fodd bynnag, roedd CALRE a RegLeg hefyd wedi cynhyrchu datganiad ar y cyd.
4. Nododd y Dirprwy Brif Weinidog bwysigrwydd aruthrol y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop. Mae Cymru yn ceisio dylanwadu ar y Confensiwn mewn dwy ffordd: trwy CALRE a thrwy ddylanwadu ar safbwynt swyddogol Llywodraeth y DU fel aelod-wladwriaeth. Y rheswm pam nad yw'r Prif Weinidog yn bresennol yn y pwyllgor hwn yw am ei fod wrthi'n cau pen mwdwl ei drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater.
5. O ran Llywodraeth y Cynulliad, mae safbwynt swyddogol y DU yn foddhaol iawn ac mae'r pwyllgor yn ei groesawu. Codwyd tri phwynt:

- Sicrhau bod yna ymgynghori uniongyrchol ar ddeddfwriaeth arfaethedig â gweinyddiaethau datganoledig. Ychwanegu cymal i'r perwyl hwn at Gytundeb Cyfansoddiadol yr Undeb Ewropeaidd;
- Atgyfnerthu egwyddor sybsidiariti - trwy gyfeiriad penodol yn y Cytundeb newydd at rôl y rhanbarthau;
- Cryfhau Pwyllgor y Rhanbarthau er mwyn cynyddu ei rym ym Mrwsel.

1. Croesawodd y pwyllgor y datganiad.
2. Mynegodd y pwyllgor ei gefnogaeth i ddatganiad Brwsel.
3. Nododd y Cadeirydd fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Peter Hain, yn gresynu na fydd yn gallu dod i gyfarfodydd y pwyllgor yn nhymor y gwanwyn i drafod y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop, ond fe fydd y Cadeirydd yn gallu anfon safbwyntiau'r pwyllgor at y Gweinidog. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cwrdd hefyd â'r Prif Weinidog ac yn trafod y mater gydag ef.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd y datganiad i'r wasg y cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog ato yn cael ei anfon at aelodau'r pwyllgor er gwybodaeth.

**<u>15.55 – 16.13</u>**

**Eitem 8**

**Adroddiad gan Wahoddedigion Sefydlog**

1. Gofynnwyd bod ymateb i waith Pwyllgor y Rhanbarthau (COR) yn cael ei ystyried fel eitem ar wahân mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
2. Cyflwynodd Rosemary Butler a Janet Davies adroddiad ar waith COR: nid yw COR wedi cwrdd ers cyfarfod diwetha'r pwyllgor hwn - bydd yna gyfarfodydd yn Chwefror, Mawrth a Mai. Cyfarfu dirprwyaeth Prydain ym Mirmingham i drafod sut i gael mwy o gonsensws yn ei dadleuon a ph'un a oedd COR wedi darparu'r hyn yr oedd ar y ddirprwyaeth ei angen. Roedd Llywydd COR yn edrych ar y gofidiau olaf hynny gyda gweinyddiaeth COR.
3. Bydd Roesmary Butler yn parhau i anfon papurau safbwynt COR at y Gweinidogion perthnasol a Chadeiryddion pwyllgorau pwnc. Bydd swyddogion yr Is-adran Materion Ewropeaidd wrth law i helpu i gael gwybodaeth yn gyflym oddi wrth yr adrannau polisi perthnasol.
4. Mae British Airways wedi rhoi'r gorau i hedfan rhwng Caerdydd a Brwsel. Mae hynny wedi'i gwneud hi'n anos i'r rheini sy'n gweithio gyda'r UE. Mae Janet Davies yn gobeithio codi'r mater mewn cyfarfod ym mis Chwefror ym Mrwsel lle bydd capisiti meysydd awyr rhanbarthol Ewrop yn cael ei drafod.
5. Roedd Janet Davies wedi bod yng nghyfarfod y Comisiwn Polisi ar Unoliaeth Diriogaethol yn Helsinki ym mis Rhagfyr. Ni chlywyd fawr ddim oedd yn berthnasol i Gymru ond fe fu'n gyfle i siarad ag aelodau eraill COR.
6. Dywedodd Glen Vaughan o Ganolfan Ewropeaidd Cymru (CEC) bod cynllun busnes 2-flynedd CEC wedi'i fabwysiadu. Nododd gefnogaeth Awdurdod Datblygu Cymru, Addysg a Hyfforddiant Cymru a nifer o gyrff eraill.
7. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad wedi hysbysebu swyddi ym Mrwsel.
8. Mae CEC a Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n trafod y telerau ar gyfer trosglwyddo CEC i ofal Llywodraeth y Cynulliad ar 1 Ebrill. Roedd y pwyllgor yn falch fod y sefyllfa wedi sefydlogi a chanmolwyd pawb oedd wedi gweithio at gael ateb boddhaol i'r broblem. Gwerthfawrogwyd ymdrechion y Dirprwy Brif Weinidog a chefnogaeth aelodau unigol.
9. Mae rhaglen lawn o weithgareddau wedi'i threfnu ar gyfer 'Wythnos Cymru' ym Mrwsel (3-7 Mawrth). Bydd CEC, Llywodraeth y Cynulliad, y WDA a'r Bwrdd Croeso oll yn cymryd rhan. Bydd yr wythnos yn dechrau gyda derbyniad mawreddog yn y Senedd Ewropeaidd gyda'r Prif Weinidog a Chomisiynydd Kinnock yn annerch llywyr polisi a phenderfyniadau. Mae pedwar digwyddiad i drafod polisi yn yr arfaeth, gyda'r gogwydd ar gynaliadwyedd: ffocws ar iechyd; y gymdeithas wybodaeth; yr amgylchedd a fframwaith cynaliadwyedd. Mae digwyddiadau diwylliannol hefyd wedi'u trefnu. Nid oes manylion eto pa ASEau a chyfranwyr eraill fydd yn cymryd rhan, ond mae gwaith caled yn cael ei wneud i sicrhau bod yna gydbwysedd gwleidyddol gydol yr wythnos. Pwysodd y Cadeirydd ar aelodau i fynd i un o ddigwyddiadau Wythnos Cymru.
10. Nodwyd gyda gofid na fydd y pwyllgor yn cynnal ei gyfarfod ar 6 Mawrth ym Mrwsel, gan nad oes digon o aelodau ar gael i deithio i Frwsel. Nid yw rheolau sefydlog y pwyllgor yn caniatau eilyddion a phwysodd y Cadeirydd ar yr aelodau eu bod yn dod i'r cyfarfod ar 6 Mawrth yng Nghaerdydd.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd ymateb i waith Pwyllgor y Rhanbarthau (COR) yn cael ei ystyried fel eitem ar wahân mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
- Caiff blaenoriaethau Pwyllgor y Rhanbarthau ar gyfer 2003 eu hanfon at aelodau'r pwyllgor.
- Bydd CEC yn anfon rhaglen ddigwyddiadau Wythnos Cymru at aelodau cyn gynted â phosibl, gan gynnwys manylion pa ASEau fydd yn cymryd rhan.

**<u>16.13 – 16.15</u>**

**Eitem 9**

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2002.

**Eitem 10**

**Papurau i'w nodi**

**Papur: EUR 01-03(p5)**

Gwnaeth y pwyllgor nodi'r papur am waith Corff Rhyng-Seneddol Prydain.

**Daeth y cyfarfod i ben am 16.15pm.**